



Datganiad Ystadegol

Treth Gwarediadau Tirlenwi



Amcangyfrifon ar gyfer Chwarter 3,
Hydref-Rhagfyr 2018

Ystadegau allweddol o'r datganiad hwn

O ran deunydd a waredwyd i safleoedd tirlenwi am y cyfnod Hydref i Ragfyr:



Bu 367 mil tonnall o warediadau awdurdodedig, y lefel debyg i'r ddau chwarter blaenorol.



Yr oedd y gwarediadau hyn yn golygu bod £10.1 miliwn o dreth yn ddyledus, lleihad o 26 y cant ers y chwarter blaenorol. Y prif reswm am hyn oedd lleihad mewn gwarediadau ar y gyfradd safonol gan nifer bach o weithredwyr safleoedd tirlenwi.

Roedd y pum gweithredwr safle tirlenwi oedd yn talu'r swm mwyaf o dreth yn cyfrif am ryw dri chwarter yr holl dreth yn ddyledus.



Gwaredwyd 111 mil tonnall o ddeunydd a dderbyniodd ryddhad neu ddisgownt, gan olygu rhyddhad treth o £0.3 miliwn.



Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y datganiad hwn, yr oedd 17 o weithredwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig yn cwmpasu 23 safle. [Gellir cael mwy o wybodaeth am y gweithredwyr safleoedd tirlenwi hyn ar wefan ACC.](#)

21 Chwefror 2019

ACC 02/2019

Beth sydd yn y datganiad hwn?

Y datganiad hwn yw'r trydydd o gyfres chwarterol 2018-19 o ystadegau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Mae'n cynnwys amcangyfrifon chwarterol o ddata ar sail cyfnod cyfrifyddu o Hydref i Ragfyr ar gyfer pob gweithredwr safle tirlenwi.

Mae'r diweddariad nesaf i fod i gael ei gyhoeddi 16 Mai 2019. [Gellir canfod yr amserlen ar gyfer cyhoeddiadau ystadegol ACC ar wefan ACC.](#)

Cysylltwch â ni


Dave Jones

Ystadegydd

03000 254 729

data@acc.llyw.cymru

Siart 1: Pwysau a threth yn ddyledus ar ddeunydd a waredwyd fel gwastraff i safleoedd tirlenwi, Hydref i Ragfyr 2018



(a) Nid oedd unrhyw dreth yn ddyledus ar y 111,000 tonnelli o warediadau o wastraff rhyddhad a disgownt. Byddai £0.3m o dreth wedi bod yn ddyledus heb weithredu'r rhyddhad.

Cyfraddau treth sy'n berthnasol i Siart 1

	2018-19	2019-20
Cyfradd safonol	£88.95 y dunnell	£91.35 y dunnell
Cyfradd is	£2.80 y dunnell	£2.90 y dunnell
Cyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi (ddim yn siart 1)	£133.45 y dunnell	£137.00 y dunnell

Data a ddangosir yn y datganiad hwn

Mae'r ystadegau a gyflwynir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar ffurflenni Treth Gwarediadau Tir gan weithredwyr safleoedd tirlenwi awdurdodedig i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC). Mae pob un o'r ffurflenni hynny'n destun dilysu fel rhan o waith lliniaru ac adfer a wneir fel mater o drefn gan ACC ac a all, o'r herwydd, gael ei ddiwygio yn y dyfodol. Mae'r adran ganlynol yn disgrifio y dulliau a ddefnyddiwyd i ganfod yr ystadegau o'r data a ddarparwyd yn y ffurflenni.

Dulliau a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn

Rhyddhad a disgowntiau


Pan gyfeirir at wastraff gan nodi ei fod wedi derbyn rhyddhad, bydd hyn wedi'i gofnodi'n wreiddiol gan weithredwyr y safleoedd tirlenwi fel gwastraff lefel is ac yna wedi'i dynnu ymaith mewn rhan ddilynol o'r ffurflen. Mae'r datganiad hwn yn adrodd ar y gwastraff sy'n destun rhyddhad yn y categori rhyddhad neu ddisgownt ond nid yn rhan o'r categori cyfradd is. Mae pwysau unrhyw wastraff y rhoddwyd disgownt mewn perthynas ag ef oherwydd disgownt dŵr (gweler yn nes ymlaen) wedi'i gynnwys yn y categori rhyddhad neu ddisgownt yn unig.

Cyfnodau cyfrifyddu ar gyfer ffurflenni'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Mae'r diagram isod yn esbonio'r cyfnodau cyfrifyddu a ddefnyddir gan weithredwyr safleoedd tirlenwi ar eu ffurflenni treth.

Mae'r ddau far ar gyfer Gweithredur A a Gweithredur B yn rhoi esiamplau o weithredwyr safleoedd tirlenwi gyda chyfnodau cyfrifyddu gwahanol. Mae gan Weithredur A gyfnod cyfrifyddu safonol ar gyfer adrodd yn ôl i ACC, sy'n cyd-fynd â diwedd ein chwarteri adrodd yn ôl. Mae mwyafrif y gweithredwyr safleoedd tirlenwi'n adrodd yn ôl i ACC ar y sail hon.

Mae Gweithredur B wedi cytuno ar gyfnod cyfrifyddu gwahanol gydag ACC, gydag amser cychwyn a gorffen gwahanol i'n chwarteri adrodd yn ôl safonol. Mae nifer bach o weithredwyr safleoedd tirlenwi'n adrodd yn ôl i ACC ar y sail hon.



Gwarediadau heb awdurdod

Does dim data ar gael eto ar warediadau heb awdurdod. Byddwn yn cadw'r agwedd hon dan adolygiad a gallem ddiwygio'r data ar gyfer y chwarter hwn wrth i unrhyw ddata ddod i law. Nodir yn ddiweddarach yn y datganiad hwn resymau eraill paham y gallai data gael ei ddiwygio.

Ansolfedd cwsmer

Mae'r system Treth Gwarediadau Tirlenwi yn caniatáu rhoi credyd yn erbyn y dreth sy'n ddyledus ar gyfer ansolfedd cwsmer. Cafodd swm bach iawn o gredyd ei hawlio yn y chwarter adrodd cyfredol, am y tro cyntaf. Yn y datganiad ystadegol hwn, mae unrhyw gredyd a hawlir wedi cael ei dynnu o gyfanswm y dreth sy'n ddyledus.

Tablau data

Sylwer bod trefn y rhesi yn Nhablau 1a ac 1b wedi cael ei newid ers y rhifyn blaenorol o'r datganiad ystadegol hwn. Mae hyn yn sicrhau bod y cyflwyniad yn unol â'r un a ddefnyddiwyd yn ein datganiad ystadegol ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir.

Tabl 1a: Pwysau o ddeunydd a waredwyd fel gwastraff i safleoedd tirlenwi (a)

Chwarter	Ffurflenni a dderbyniwyd	Cyfanswm safleoedd	Pwysau a waredwyd ('000 tonnelli) (b)			
			Rhyddhad neu ddisgownt (c)	Cyfradd is	Cyfradd safonol	Cyfanswm (d)
Ebrill - Mehefin 18 (r)	17	23	87	148	125	360
Gorffennaf - Medi 18 (r)	17	23	88	129	149	366
Hydref - Rhagfyr 18 (p)	17	23	111	147	109	367

- (a) Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth am warediadau heb awdurdod gan nad oes unrhyw ddata ar gael eto.
- (b) Mae'r pwysau a gyflwynwyd wedi'u talgrynnu i'r 1,000 tonnelli agosaf.
- (c) Mae hyn yn cynnwys pwysau dŵr a dynnwyd o wastraff a waredwyd, ar gyfradd sero, a phwysau'r holl wastraff sy'n destun unrhyw ryddhad Treth Gwarediadau Tirlenwi.
- (d) Mae'r cyfanswm wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.

O Hydref i Ragfyr, roedd 367 mil tonnelli o warediadau awdurdodedig, yn debyg iawn i'r ddau chwarter blaenorol. Mae cyfres lawn o ffurflenni wedi cael ei derbyn ar gyfer pob chwarter ac mae un gweithredwr safle tirlenwi a oedd wedi cofrestru gydag ACC yn flaenorol mewn camgymeriad wedi cael ei eithrio o ddata cynharach yn awr. Mae hyn wedi arwain at leihau'r ffigurau treth a ryddhawyd a ddangosir ar gyfer chwarter Ebrill i Fehefin.

Tabl 1b: Treth ddyledus ar ddeunydd a waredwyd fel gwastraff i safleoedd tirlenwi (a)

Chwarter	Treth yn ddyledus (£1 filiwn) (b)			Swm y dreth a ryddhawyd (d)
	Cyfradd is	Cyfradd safonol	Cyfanswm (c)	
Ebrill - Mehefin 18 (r)	0.4	11.2	11.6	0.2
Gorffennaf - Medi 18 (r)	0.4	13.3	13.6	0.2
Hydref - Rhagfyr 18 (p)	0.4	9.7	10.1	0.3

- (a) Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth am warediadau heb awdurdod gan nad oes unrhyw ddata ar gael eto.
 - (b) Mae'r gwerthoedd a gyflwynwyd wedi'u talgrynnu i'r £0.1m agosaf.
 - (c) Mae'r cyfanswm a gyflwynwyd wedi'i gyfrifo ar sail y gwerthoedd heb eu talgrynnu.
 - (d) Dyma'r gostyngiad mewn treth o ganlyniad i'r ceisiadau am ryddhad. Nid yw'r swm yn cynnwys unrhyw elfen am ddisgownt dŵr, nad yw'n cael ei drethu.
- Arweiniodd y gwarediadau hyn at £10.1 miliwn o dreth yn ddyledus ar gyfer Hydref i Ragfyr, lleihad o 26 y cant ers y chwarter blaenorol. Y prif reswm am hyn oedd lleihad mewn

gwarediadau ar y gyfradd safonol gan nifer bach o weithredwyr safleoedd tirlenwi. Roedd y £10.1 miliwn o dreth oedd yn ddyledus ar gyfer mis Hydref i fis Rhagfyr 13 y cant yn is na'r ffigur ar gyfer misoedd Ebrill i Fehefin.

- Efallai bod tystiolaeth o batrwm tymhorol yn dod i'r amlwg yn y data, gyd dyddiau byrrach misoedd y gaeaf yn ffactor o bosib. Byddwn yn ymchwilio i hyn ymhellach wrth i ni dderbyn mwy o ddata.
- Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr, roedd y pum gweithredwr safle tirlenwi oedd yn talu'r swm mwyaf o dreth yn cyfrif am ryw dri chwarter yr holl dreth a dalwyd.
- Mae'r gwerth ar gyfer swm y dreth a ryddhawyd yn cynrychioli faint o dreth fyddai wedi bod yn ddyledus pe nad fyddai'r rhyddhad wedi'i ganiatáu.

Derbyniadau o Dreth Gwarediadau Tir

Rydym nawr yn gallu dechrau y Tabl 2 newydd isod sy'n dangos derbyniadau chwarterol ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae hyn yn seiliedig ar y dyddiad y cafwyd y taliad, a elwir yn 'ar sail arian parod' weithiau.

Tabl 2: Treth Gwarediadau Tirlenwi a dalwyd i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) (a)

Chwarter	Gwerth taliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (£1 filiwn)
Ebrill - Medi 18 (b)	12.2
Hydref - Rhagfyr 18	13.5

- (a) Mae'r gwerthoedd yn y tabl hwn wedi cael eu talgrynnu i'r £0.1 filiwn agosaf.
- (b) Mae'r ffigurau o fis Ebrill i fis Mehefin 2018 wedi cael eu cyfuno i ffigurau mis Gorffennaf i fis Medi 2018. Mae oherwydd dim ond nifer bach iawn y darparwyr a oedd eisoes wedi cyflwyno ac wedi talu eu ffurflenni cyntaf cyn diwedd mis Mehefin (cyflwynodd a thalodd y rhan fwyaf ohonynt ym mis Gorffennaf).

Yn ystod y cyfnod o Hydref i Ragfyr 2018, cafodd ACC £13.5 miliwn o daliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi.

Sut fydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol?

Dyma'r trydydd o'n datganiadau ystadegol chwarterol ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Byddwn yn cyhoeddi'r rhifyn chwarterol nesaf ar 16 Mai 2019. Bydd y cyhoeddiad nesaf yn diweddarau amcangyfrifon ar gyfer Hydref i Ragfyr a gynhwyswyd yn y datganiad hwn a darparu y ddau

amcangyfrifon dros dro ar gyfer y chwarter dilynol (Ionawr i Fawrth) ac ar gyfer y flwyddyn gyfan 2018-19.

Bydd y cyhoeddiad nesaf hefyd yn darparu dadgyfuno mwy manwl ar y data, gan gynnwys o bosibl dadansoddiad o'r data ar ryddhad a disgownt; adrodd yn fanwl am unrhyw gredyd o ran ansolfedd cwsmeriaid; a darparu data ar brofion colled wrth danio. Mae hyn yn dibynnu, fodd bynnag, ar ddadansoddiad o'r canlyniadau manwl i wirio nad yw'r data ar gyfer unrhyw drethdalwr unigol yn cael eu datgelu'n ddamweiniol.

Gwybodaeth Gefndirol - Treth Gwarediadau Tirlenwi

O fis Ebrill 2018, disodlwyd y Dreth Tirlenwi yng Nghymru gan Dreth Gwarediadau Tirlenwi a chaiff ei chasglu a'i rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), yr awdurdod treth newydd ar gyfer Cymru.

Derbyniodd [Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cymru\) 2017](#) Gydsyniad Brenhinol ar 7 Medi 2017. Fel Treth Tirlenwi, mae Treth Gwarediadau Tir yn dreth ar waredu gwastraff i dirlenwi a chodir y dreth yn ôl pwysau. Mae'n daladwy gan weithredwyr safleoedd tirlenwi, sy'n trosglwyddo'r costau hyn i weithredwyr gwastraff eraill drwy eu ffi glwyd.

Cyfraddau

Mae tair cyfradd Treth Gwarediadau Tir (mae'r tabl dan Siart 1 yn darparu'r cyfraddau ar gyfer 2018-19 a 2019-20):

- **cyfradd is** ar gyfer deunyddiau sy'n cwrdd â'r amodau a nodir yn y Ddeddf ([gweler y canllawiau i gael rhagor o wybodaeth ar ddeunyddiau cymwys](#));
- **cyfradd safonol** ar gyfer pob deunydd arall; a
- **chyfradd gwarediadau heb awdurdod** ar gyfer gwarediadau trethadwy a wneir yn rhywle ac eithrio safleoedd tirlenwi awdurdodedig.

Codir gwarediad trethadwy ar safle tirlenwi awdurdodedig ar y gyfradd safonol, oni bai bod y deunydd sy'n cael ei waredu yn cynnwys un neu fwy o ddeunyddiau cymwys yn unig neu'n gymysgedd cymwys o ddeunyddiau (ac os felly, codir y gyfradd is).

Bydd gwarediad trethadwy sy'n cael ei wneud yn unrhyw le oni bai am safle tirlenwi awdurdodedig yn ddarostyngedig i dâl yn ôl y gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi. Mae hyn waeth beth fo natur y

deunydd a waredir a waeth pe byddai fel arall yn ddarostyngedig i'r gyfradd safonol neu'r gyfradd is pe bai'n cael ei waredu mewn safle tirlenwi awdurdodedig.

[I gael rhagor o wybodaeth, gweler y canllawiau technegol Treth Gwarediadau Tir.](#)

Cyfnodau cyfrifyddu

Mae pob gweithredwr safle tirlenwi yn cytuno ar gyfnod cyfrifyddu gydag ACC ar gyfer dychwelyd ffurflen Treth Gwarediadau Tir, y mae'n rhaid iddi gael ei derbyn erbyn diwrnod gwaith olaf y mis yn dilyn diwedd y cyfnod cyfrifyddu. Mae'r rhan fwyaf o weithredwyr safleoedd tirlenwi'n gweithio'n unol â chwarteri calendr safonol, fel bod y data ar gyfer unrhyw chwarter penodol yn cael ei gynnwys ar un ffurflen Treth Gwarediadau Tir ar gyfer y gweithredwr safle tirlenwi hwnnw. Mae'r ffurflenni hyn i fod i gael eu derbyn gan ACC erbyn diwrnod gwaith olaf y mis wedi diwedd y chwarter, er enghraifft, yr oedd data ar gyfer Hydref i Ragfyr 2018 i fod i gael ei dderbyn erbyn 31 Ionawr 2019 yng nghyswllt pob gweithredwr safleoedd tirlenwi sy'n gweithio'n unol â chwarteri calendr safonol.

Fodd bynnag, mae lleiafrif bychan o weithredwyr safleoedd tirlenwi'n gweithio'n unol â chyfnodau amgen o dri mis, ac felly fe wnaethant hwy ddarparu eu ffurflen Treth Gwarediadau Tirlenwi gyntaf yn cwmpasu dim ond rhan o'r cyfnod Hydref i Ragfyr 2018, un ai erbyn 30 Tachwedd 2018 neu 31 Ragfyr 2018. O'r herwydd, gwnaed addasiadau i'r data a gyflenwyd gan y gweithredwyr safleoedd tirlenwi hyn er mwyn rhagweld data'r chwarter llawn fel rhan o'r ystadegau a ddarparwyd yn y datganiad hwn. Nodir yr addasiadau hyn yn yr adran Dulliau uchod.

Bydd y gweithredwyr safleoedd tirlenwi hyn yn parhau i ffeilio ffurflenni ar sail chwarter heb fod yn chwarter calendr, ac felly er y bydd y rhan fwyaf o ffurflenni'n cael eu derbyn erbyn diwedd Gorffennaf, Hydref, Ionawr ac Ebrill yn y dyfodol, bydd nifer fechan o ffurflenni'n parhau i gael eu derbyn erbyn diwrnod gwaith olaf y misoedd eraill. Bydd y broses addasu a nodir yn yr adran dulliau yn parhau i gael ei defnyddio i gynhyrchu amcangyfrifon chwarterol wrth i'r data ddatblygu.

Esemptiadau

Gall rhai enghreifftiau o waredu deunyddiau gael eu hystyried yn esempt rhag Dreth Gwarediadau Tir ac felly ni fyddant yn cael eu hadrodd i ACC. Ni chesglir unrhyw ddata ar y gwarediadau esempt hyn. Ar hyn o bryd mae dau warediad esempt:

Amryfal warediad deunydd ar yr un safle

Pan mae'r deunydd wedi cael ei gynnwys eisoes ar ffurflen dreth a bod treth wedi'i thalu wrth ei waredu ar yr un safle. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond un waith y bydd gwarediadau lluosog o'r un deunydd ar yr un safle awdurdodedig yn agored i Dreth Gwarediadau Tir.

Mynwentydd anifeiliaid anwes

Mae'n berthnasol i safleoedd tirlenwi awdurdodedig nad ydynt ond yn derbyn gwaredu cyrff neu lwch anifeiliaid anwes marw (ac unrhyw flwch neu wrn sy'n eu cynnwys). Gan fod y gwarediadau mewn mynwentydd anifeiliaid anwes yn esempt, nid oes raid i weithredwyr mynwentydd o'r fath gofrestru gydag ACC i gyfrif ar gyfer Treth Gwarediadau Tir. Nid yw'r esemptiad yn cwmpasu safleoedd tirlenwi eraill sy'n derbyn gweddillion anifeiliaid anwes a mathau eraill o wastraff.

Rhyddhadau

Gellir hawlio rhyddhad ar rai gwarediadau trethadwy ar y gyfradd is ar safleoedd awdurdodedig. Mewn achosion o'r fath ni chaiff y dreth ei chodi os bydd y rhyddhad yn cael ei hawlio mewn ffurflen dreth. Caiff rhyddhadau eu gosod mewn pedwar categori cyffredinol:

- deunydd a dynnir o wely afon, o wely'r môr neu o ddyfroedd eraill drwy garthu;
- deunydd sy'n deillio o fwyngloddio a chwarela;
- ail-lenwi mwyngloddiau brig a chwareli; ac
- adfer safleoedd.

Disgownt dŵr

Caiff gweithredwr safle tirlenwi wneud cais i ACC am gymeradwyaeth i gymhwyso disgownt mewn perthynas â dŵr sydd mewn deunydd wrth gyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd mewn gwarediad trethadwy. Mae'r amgylchiadau pryd gellir cymhwyso'r disgownt mewn perthynas â dŵr wedi'u cyfyngu i achosion cyfiawn pryd y mae angen ychwanegu neu ddefnyddio dŵr. Gellir gwneud ceisiadau pan fydd y dŵr yn bresennol fel mater o raid yn y deunydd at y dibenion canlynol:

- bod rhaid ei ychwanegu er mwyn gallu cludo'r deunydd i'w waredu;
- bod rhaid ei ychwanegu i echdynnu mwyn;
- bod rhaid ei ychwanegu yn ystod proses ddiwydiannol;
- ei fod yn deillio'n anochel o ganlyniad i broses ddiwydiannol; neu
- bod y deunydd yn weddillion trin elifiant neu garthion mewn gwaith trin dŵr.

Bydd yn ofynnol i weithredwyr safleoedd tirlenwi hawlio'r disgownt mewn perthynas â dŵr yn eu ffurflen dreth drwy ddarparu manylion y tunelledd dŵr i'w ddisgowntio ar gyfer pob cyfnod cyfrifyddu. Nid yw wedi'i gynnwys mewn unrhyw bwysau yr adroddwyd ei fod yn destun y cyfraddau safonol neu is.

I gael rhagor o wybodaeth am esemptiadau, rhyddhadau a disgownt, gweler y [canllawiau technegol ar wefan ACC](#) a'r [ddeddfwriaeth ar gyfer Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi \(Cymru\) 2017](#).

Gwarediadau heb eu hawdurdodi

Gallai gwaredu deunydd fel gwastraff fod yn agored i Dreth Gwarediadau Tir ni waeth ymhle cafodd y gwarediad ei wneud. Gall gwarediadau a wnaed y tu allan i safle tirlenwi awdurdodedig fod yn agored i'r gyfradd gwarediadau heb eu hawdurdodi (£133.45 y dunnell ar hyn o bryd). Caiff y gyfradd hon ei chymhwyso, yn ddiwahân, i bob deunydd a waredir, ni waeth os yw'r deunydd yn agored i'r gyfradd safonol neu'n gymwys ar gyfer y gyfradd is. Nid oes yr un o'r esemptiadau neu ryddhadau sy'n gymwys i warediadau ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig ar gael i warediadau anawdurdodedig.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar [warediadau heb eu hawdurdodi ar wefan ACC](#).

Adran ansawdd allweddol

Gwerth

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu sefydlu er mwyn diwallu gofyniad y defnyddiwr ar gyfer data ar weithredu'r Dreth Trafodiadau Tir, ar ôl sefydlu ACC.

Mae ystadegau am y trethi cyfatebol yn Lloegr a'r Alban yn cael eu cyhoeddi gan Gyllid a Thollau EM a Cyllid yr Alban. Hyd at Ebrill 2018, yr oedd ystadegau ar warediadau tirlenwi yng Nghymru wedi'u cynnwys ym mwletin Cyllid a Thollau EM, ond ddim yn cael eu dangos fel gwerthoedd ar wahân o fewn data Cymru a Lloegr.

[Cyllid a Thollau EM - Treth Tirlenwi Bwletin](#)

[Cyllid yr Alban – Ystadegau Treth Tirlenwi yr Alban](#)

Yn yr adran dulliau uchod, rydym wedi nodi sut y byddwn yn addasu'r data i adlewyrchu'r dreth sy'n ddyledus yn y chwarter, sy'n caniatáu i ni amcangyfrif ac adrodd ar y Treth Gwarediadau Tir sy'n ddyledus yn y chwarter hwnnw. Bydd Cyllid a Thollau EM yn adrodd ar y ffurflenni treth a gyflwynwyd bob mis, sy'n dibynnu ar gyfnodau cyfrifyddu gweithredwyr y safleoedd tirlenwi, ac yna'n gwneud rhai addasiadau cyfrifyddu i adlewyrchu'r gweithgaredd chwarterol. Nid oedd modd i ni gyhoeddi yn ôl mis oherwydd y risg o ddatgelu manylion gweithredwyr safleoedd tirlenwi unigol ac rydym hefyd yn awyddus i'r dreth sy'n cael ei hadrodd ymwneud yn llwyr â'r cyfnod yr adroddir yn ei gylch. O'r herwydd, rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda Chyllid a Thollau EM er mwyn deall eu haddasiadau cyfrifyddu'n well, a gydag awdurdodau treth eraill y DU fel y gallwn asesu cymhared y data yma gyda data ar gyfer Cymru cyn Ebrill 2018 a'r data cyfredol ar gyfer y DU yn ehangach.

Byddwn yn creu dogfennaeth yn amlinellu'r cysondeb yn y dyfodol, a hynny yn ein datganiad blynyddol fwy na thebyg.

Dibynadwyedd

Mae'r ystadegau hyn wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Fel cynhyrchydd newydd o ystadegau swyddogol, rydym yn datblygu ein prosesau cyhoeddi ystadegol, a [chyhoeddwyd ein polisi interim ar allbynnau ystadegol yma](#), yn cynnwys:

- y safonau proffesiynol a ddilynwyd wrth greu'r ystadegau hyn;
- sut mae Swyddog Arweiniol Ystadegau ACC yn rheoli cynnwys ac amseru'r allbynnau'n annibynnol;
- sut rydyn ni'n rhoi gwybod i ddefnyddwyr am allbynnau sydd ar y gweill;
- sut caiff data ei gasglu, ei storio a'i reoli; a
- bydd staff sy'n ymwneud â chynhyrchu ystadegau'n mynd drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus yn unol â fframwaith Cymwyseddau'r Gwasanaeth Sifil a fframwaith cymwyseddau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.

Asesu ansawdd y data hwn

Rydym yn parhau i asesu ansawdd y data a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i fwy o ddata gael ei dderbyn.

Rydyn ni wedi asesu'r budd a'r pryderon posibl o ran ansawdd yn unol â chanllawiau Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar ddefnyddio data gweinyddol, gan nodi unrhyw bryderon posibl o ran ansawdd. Mae'r tabl isod yn cyflwyno ein hasesiad cyfredol.

Ffynhonnell data	Proffil budd y cyhoedd	Lefel y risg o bryderon ynghylch ansawdd	Lefel yr wybodaeth sicrwydd a ddatblygir
Ffurflenni Treth Gwarediadau Tir	Isel	Isel	A1 – sicrwydd sylfaenol

Wrth baratoi'r datganiad hwn, rydym wedi gweithio'n agos gyda staff gweithredol ACC i ganfod materion pellach yn ystod casglu a phrosesu ffurflenni unigol. Rydym wedi datblygu rhai systemau rheoli ansawdd yng nghyswllt ffurflenni treth sy'n tynnu sylw at feysydd pryder posibl o ran ein staff gweithredol sydd wedyn yn gallu cysylltu â gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gywiro problemau posibl.

Mae'r gwiriadau hyn wedi tynnu sylw at y ffaith bod rhai materion bychan iawn o ran talgrynnu yn y data a gyflwynwyd i ACC, yn bennaf oherwydd cyflwyno ffurflenni am fwy nac un safle a thalgrynnu ar y bont bwyso. Mae'r materion hyn yn creu gwahaniaethau o ran cysondeb mewnol o lai na £10 gyda'i gilydd, sy'n gyfforddus o fewn y paramedrau talgrynnu a ddefnyddiwyd gennym wrth gyflwyno'r canlyniadau.

Mae enghraifft bellach o'r mater ansawdd a ddarganfuwyd gennym i'w weld isod.

Enghraifft

Drwy edrych ar gysondeb mewnol y data ar draws pob ffurflen, canfuwyd problemau lle yr oedd ein canllawiau ni yn amwys a lle yr oedd peth pwysau disgownt dŵr wedi ei gofnodi yn erbyn gwarediadau trethadwy. Aethom ati i ddiwygio'r canllawiau i'w gwneud yn gliriach, a chadarnhau fod yr holl weithredwyr safleoedd tirlenwi cysylltiedig wedi dilyn y canllawiau newydd hynny wedyn, gan gywiro data fel bo angen cyn cyhoeddi.

Diwygio data i'r dyfodol

Mae'r data yn y datganiad hwn yn un dros dro ar hyn o bryd a gallai gael ei ddiwygio mewn datganiadau yn y dyfodol i roi cyfrif am ddiweddariadau i ffurflenni, er enghraifft yn dilyn gwiriadau lliniaru ac adfer arferol a wneir gan ACC.

Mae'r adran dulliau yn gynharach yn y datganiad yn ymdrin â diwygiadau a gynlluniwyd i'r data, a marcio data'r chwarter diweddaraf fel 'dros dro', o ganlyniad. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau ad hoc sy'n ofynnol yn dilyn gwiriadau lliniaru ac adfer yn llai hawdd eu rhagweld. Er enghraifft, mae hawliadau am ryddhad yn cael eu hasesu ar hyn o bryd, ac yn yr achosion hyn, mae'r gwastraff dan sylw wedi'i gyfrifo ar hyn o bryd yn amcangyfrifon y gyfradd is a gyflwynwyd. Os caiff y rhyddhad ei gymeradwyo, gallai gael ei ôl-ddyddio i gynnwys chwarteri blaenorol, fel y gallai addasiad heb ei gynllunio i'r data a gyflwynir yma godi (er ei fod yn debygol o fod yn fychan). Pan mae angen gwneud diwygiadau heb eu cynllunio i ddata hanesyddol, byddwn bob amser yn esbonio'n glir y rhesymau dros hynny yn y datganiad perthnasol.

Cysondeb â data arall

Yn fuan, byddwn yn gallu cymharu pwysau gwarediadau trethadwy â rhywfaint o ddata o ffurflenni gwastraff a dderbyniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hyn yn caniatáu gwirio pellach ar synnwyr y data a gyflwynwyd yma a bydd yn digwydd am y tro cyntaf cyn cyhoeddi'r datganiad blwyddynol.

Symbolau a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn

- r Mae'r gwerth hwn wedi ei ddiwygio yn y cyhoeddiad hwn
- p Mae'r gwerth hwn dros dro a bydd yn cael ei ddiwygio mewn cyhoeddiad yn y dyfodol

Adborth ac ymholiadau

Rydyn ni'n croesawu adborth a sylwadau i ddatblygu'r datganiadau hyn a datganiadau yn y dyfodol. Defnyddiwch y manylion isod i gysylltu â ni.

Cyfryngau: E-bost: newyddion@acc.llyw.cymru

Ymholiadau: E-bost: data@acc.llyw.cymru

Ffôn: 03000 254 729

Diweddariad nesaf

16 Mai 2019 (gweler yr adran 'Sut bydd y data'n cael ei gyhoeddi yn y dyfodol?')

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan y Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, oni nodir yn wahanol.

